# Clecs Camwy

Papur Bro Dyffryn Camwy Gorffennaf 2012

# Gŵyl y Glaniad

## 28 Gorffennaf 1865 - 28 Gorffennaf 2012



Tybed am beth fyddwch chi'n meddwl wrth glywed am yr 28ain o Orffennaf. Mae'n bosib y byddai meddwl rhai yn troi yn syth at Dir Halen sydd erbyn hyn yn cael ei adnabod yn ôl ei enw swyddogol, '28 de Julio', tra bo eraill yn cael eu hatgoffa o'r cwmni bysiau gwyrdd sy'n rhedeg trwy Ddyffryn Camwy. Mae'r dyddiad yn enw amlwg ar nifer o strydoedd yr ardal hon, ond efallai nad yw'r 28ain o Orffennaf yn ddim byd mwy na dyddiad arall ar y calendr i rai. Ond i nifer mawr ohonom mae i'r diwrnod hwn arwyddocâd arbennig iawn, ac eleni roedd cyfle o'r newydd i ddathlu Gŵyl y Glaniad ar hyd a lled talaith Chubut.




Ar y dyddiad hwn yn y flwyddyn 1865 cyrhaeddodd rhyw gant a hanner o Gymry Fae Newydd - lle mae Porth Madryn erbyn heddiw - ar fwrdd llong y Mimosa, a hynny ar ôl deufis o hwylio Môr yr Iwerydd. Nid ar chwarae bach y penderfynodd y Cymry hynny adael eu cartrefi a throi am yr Ariannin, roedden nhw'n ysu am fywyd newydd a rhyddid i arddel eu traddodiadau, eu diwylliant a'u hiaith. Nid oedd bywyd yn hawdd i'r ymsefydlwyr cyntaf hyn, a threulion nhw flynyddoedd yn brwydro yn erbyn yr elfennau yn wyneb pob math o anawsterau er mwyn sicrhau safon byw ar eu cyfer nhw, eu plant, a'u disgynyddion. Felly ar yr 28ain o Orffennaf 2012 daeth cyfle arall i goffáu'r gwŷr a'r gwragedd dewr hynny a'u gwaith diflino, ac i ddathlu ein hunaniaeth Gymreig.

Dechreuodd y dathlu cyn y diwrnod mawr, gydag ysgolion y dalaith yn cynnal gwersi ar hanes y Cymry cyntaf yn cyrraedd Patagonia, yn darllen storïau, yn paratoi murluniau a darluniau am y digwyddiad hanesyddol, a chafodd blant Ysgol Feithrin y Gaiman gyfle i fwynhau te arbennig ar brynhawn y 27ain o Orffennaf. Y noson honno cynhaliodd Ysgol yr Hendre swper arbennig o asado yn Nhrelew i ddathlu.



Ar fore Gŵyl y Glaniad cynhaliodd Cymdeithas Dewi Sant seremoni arbennig yn Neuadd Dewi Sant Trelew, lle anerchodd Arie Lloyd de Lewis y dorf niferus oedd wedi ymuno â'r dathlu yno. Roedd arlwy'r bore hefyd yn cynnwys côr plant 'Lleisiau bach y dref', perfformiad gan y grŵp dawnsio gwerin Gwanwyn, a dwy gân gan y pedwarawd, Hogia'r Wilber. Parhaodd y dathlu nid nepell o Neuadd Dewi Sant, mewn cymanfa ganu yng Nghapel Tabernacl oedd wedi'i threfnu gan Monw Hughes ac yn cael ei harwain gan Judith Hughes. Darllenwyd Salm 19 gan Sara Jones yn Gymraeg a Veronica Halliday yn Sbaeneg cyn i Jorge Leccese agor y gair, ac wrth gwrs bu canu brwd a ddaeth i ben gyda fersiwn arbennig o 'Mae popeth yn dda.'

(parhad ar dudalen 2...)

Lois Dafydd




Denodd glannau Porth Madryn niferoedd wrth i ddyfodiad Cymry'r Mimosa gael ei hactio yno eleni eto, a chynhaliodd gwahanol gymdeithasau de mawreddog ar hyd a lled y dyffryn.

Yn unol â'r traddodiad, cynhaliodd gwahanol gapeli Dyffryn Camwy de arbennig lle heidiodd torfeydd niferus i fwynhau paned neu ddau (neu dri) o de a sawl plât o fara menyn a jam, a chacennau o bob math. Mae te'r capeli'n boblogaidd iawn bob blwyddyn! Ac eleni cynhaliodd Ysgol yr Hendre de Gŵyl y Glaniad yn yr adeilad newydd y drws nesaf i Gapel Moriah yn Nhrelew am y tro cyntaf, lle cafodd nifer o gyfeillion yr ysgol gyfle i ddathlu gyda'i gilydd dros baned a danteithion, a bu'r plant yn canu i'w diddanu. Yn dilyn y te, cynhaliodd rhai gapeli ac eglwysi gyngerdd arbennig lle bu canu, adrodd, sgetsys a llawer o hwyl a sbri!

Gŵyl y Glaniad Llawen i bawb!














# Ysgol yr Hendre



Ar ôl misoedd o waith caled, agorwyd adeilad newydd Ysgol yr Hendre ar yr 28ain o Fai eleni, ar Stryd Rivadavia a Moriah yn Nhrelew. O'r diwedd, roedd yn barod i'r plant ddechrau eu gweithgareddau yno.
Cafodd yr ysgol ei hadeiladu gan Lywodraeth y Dalaith, a chynhaliwyd yr agoriad swyddogol fis Tachwedd diwethaf. Ond gan fod angen gorffen rhai pethau technegol, doedd hi ddim yn barod tan fis Mai. Roedd y penwythnos cyn i'r plant symud i'r ysgol newydd yn un prysur iawn - glanhau, gwneud llenni a'u gosod, symud y dodrefn. Gweithiodd grŵp o rieni ac athrawon yn galed iawn i wneud hynny. Roedd 35 o blant blynyddoedd 3, 4, 5, a 6, a'u hathrawon wrth eu boddau ar fore dydd Llun pan gyrhaeddon nhw gartref newydd eu hysgol am y tro cyntaf. Mae'r plant eraill yn yr hen adeilad ar Stryd Moreno o hyd, ond maen nhw'n awr yn fwy cyfforddus gan fod mwy o le iddynt.
Er mwyn codi arian i brynu llawer o beth sydd eu hangen ar gyfer yr adeilad newydd, trefnodd Clwb y Rhieni lawer o weithgareddau. Coginion nhw 'locro' a'i werthu, cynhalion nhw raffl, a bydd 'Swper y Glaniad', sydd erbyn hyn yn weithgaredd draddodiadol gan Glwb y Rhieni, yn cael ei gynnal nos Wener y 27ain o Orffennaf, a bydd Te Gŵyl y Glaniad yn cael ei gynnal am y tro cyntaf yn yr ysgol ar Stryd Rivadavia am 4 o'r gloch ar yr 28ain o Orffennaf.

# Diwrnod Annibyniaeth yr Ariannin

Fel y gŵyr pawb, mae'r 9fed o Orffennaf yn ddiwrnod hollbwysig yn hanes yr Ariannin, gan mai ar y dyddiad hwn nôl yn 1816 y cyhoeddwyd y wlad yn un annibynnol. Cynullodd Cyngres Tucumán mewn tŷ yn y ddinas honno gan gyhoeddi annibyniaeth Taleithiau Unedig De America, sef yr Ariannin, a hynny chwe blynedd ers dechrau Gwrthryfel Mai.



Wrth gwrs, bu dathlu mawr ar hyd a lled y wlad eleni eto, a doedd Dyffryn Camwy ddim yn eithriad.

Gan fod y nawfed o Orffennaf yn ystod Gwyliau'r Gaeaf, dathlodd plant hynaf Ysgol yr Hendre, sy bellach yn cael eu dosbarthiadau yn yr adeilad newydd ar Rivadavia, ar ddydd Gwener y 6ed o Orffennaf. Cawson nhw flas ar frecwast arbennig i nodi'r achlysur.

Cynhaliwyd acto Diwrnod Annibyniaeth yng nghanolfan hamdden y Gaiman fore'r 9fed o Orffennaf. Er bod rhai eisoes wedi mynd ar eu gwyliau, cyrhaeddodd nifer o drigolion y Gaiman i'r neuadd ar fore gaeafol lle cawson nhw eu croesawu'n gynnes gan blant ac athrawon yr Ysgol Feithrin oedd wedi'u gwisgo yn nillad traddodiadol yr Ariannin. Roedd cynrychiolwyr o'r ysgol hon ac ysgolion eraill yr ardal hefyd yn amlwg yn nefod y baneri, gan orymdeithio i flaen y neuadd cyn i bawb ganu anthem yr Ariannin. Gladys Thomas, prif athrawes Ysgol Gerdd y Gaiman oedd yn arwain yr acto, ac yn ystod ail ran y seremoni mwynheuodd y gynulleidfa adloniant oedd wedi'i drefnu gan y Ganolfan Ddiwylliant. Ymddangosodd dawnswyr tango a dawnswyr traddodiadol, yn ogystal â grŵp canu.



Ar ôl y seremoni, roedd siocled poeth ar gael i bawb cyn troi am adref i fwynhau gweddill y diwrnod gyda theulu a ffrindiau.

# Cymanfa Ganu Capel Berwyn, Rawson

Teithiodd Cymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant ychydig yn bellach fis Gorffennaf, i brif ddinas Chubut. Trerawson, neu Rawson erbyn heddiw, oedd y dref gyntaf i'r Cymry ei sefydlu - Caer Antur oeodd yr enw gwreiddiol - a Chapel Berwyn yw un o'r capeli lleiaf.

Am bedwar o'r gloch brynhawn Sadwrn yr 21ain o Orffennaf, agorodd Capel Berwyn ei ddrysau gwyrdd i groesawu rhai degau o bobl yno. Estynnodd Rebeca White groeso i'r rhai oedd wedi dod i'r gymanfa cyn eu harwain yn y canu. Darllenodd Salm 95 ac yna daeth tro Gladys Williams i arwain y gynulleidfa mewn dau emyn. Marli Pugh, Edith Macdonald, ad Ida Williams oedd yr arweinwyr eraill, a darllenodd Melba Jones Ioan 14:15-27. Yn anffodus, roedd amgylchiadau'n golygu nad oedd y pregethwr gwadd, y Parch. Diego Puyol, wedi gallu cyrraedd y capel i rannu ei neges. Ond roedd y canu Cymraeg a Sbaeneg yn braf yng Nghapel Berwyn. Yn ôl yr arfer, tynnwyd lluniau a chyfarchwyd cyfeillion y tu allan i'r capel cyn i bawb droi am adref.





# Y Gymraeg yn y Gwyliau

Roedd y seithfed o Orffennaf yn ddiwrnod y bu plant, athrawon, a rhai rhieni yn ei ddisgwyl ers wythnosau, os nad misoedd - diwrnod cynta'r gwyliau! Tra aeth rhai i ymweld â theuluoedd neu wahanol ardaloedd, arhosodd nifer adref. Trefnodd Menter Patagonia raglen o weithgareddau ar gyfer y bobl hynny oedd wedi aros adref - neu heb wyliau, wrth gwrs! Bu tipyn o fynd a dod i Dŷ Camwy dros y pythefnos...



Deuai plant rhwng tair a chwech oed i'r tŷ am ychydig oriau bob dydd ar gyfer Cylch Camwy. Cafwyd tipyn o hwyl yn chwarae gyda jig-sôs, tynnu lluniau, gwylio cartŵnau a rhaglenni Cymraeg i blant, canu, a gwneud gwahanol waith celf. Cafodd y plant gyfle i greu bowlenni bach gyda darnau o bapur newydd a glud, paentio gwahanol anifeiliaid fferm, a gludo gwahanol ddeunydd ar lun o ddyn eira. Afraid dweud fod yr hwyl wedi gadael ei ôl lliwgar ar loriau Tŷ Camwy!

Darparwyd dosbarthiadau oedolion hefyd yn ystod wythnos gyntaf y gwyliau. Am ddwy awr y dydd cynhaliwyd cwrs Cymraeg Sylfaenol i'r sawl sydd wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg neu fynychu dosbarthiadau yn y gorffennol, ond oedd yn awyddus i ymarfer a datblygu eu gafael ar yr iaith. Roedd hefyd cyfle i'r sawl sydd eisoes yn siarad Cymraeg yn rhugl roi sglein ar eu hiaith lafar ac ysgrifenedig yn y dosbarthiadau Gloywi Iaith a gynhaliwyd am awr bob nos yn Nhŷ Camwy.



Yn ystod ail wythnos y gwyliau, ymunodd amryw bobl mewn gweithdai oedd yn seiliedig ar wahanol gystadlaethau ysgrifenedig yr eisteddfodau yn Nhŷ Camwy. Ar y nos Lun dangosodd Lois Dafydd sut i ysgrifennu adolygiad llyfr, a'r noson ganlynol cynhaliodd Esyllt Roberts weithdy diddorol dros ben ar gyfieithu, gan gynnig gwahanol 'dips' defnyddiol wrth fynd ati i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Sbaeneg ac o'r Sbaeneg i'r Gymraeg. Nos Fercher rhoddodd Lois Dafydd gyflwyniad i'r hunangofiant fel cyfrwng llenyddol cyn rhannu syniadau ar gyfer llunio hunangofiant erbyn Eisteddfod y Wladfa. Mae 'Ystrad Fflur' gan T. Gwynn Jones yn ddarn adrodd unigol yn Eisteddfod Mimosa ac yn ddarn cydadrodd yn Eisteddfod Trevelin eleni, felly nos Iau daeth ambell un i ddarllen a thrafod y gerdd honno gyda Lois Dafydd i'w deall yn well er mwyn ei hadrodd o'r llwyfan.



Daeth yr wythnos i ben gyda gweithdy difyr ar ysgrifennu creadigol gydag Esyllt Roberts, yn baratoad i'r sawl sy'n dymuno cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2013: 'Y Pedwar Tymor yn y Wladfa'. Trafodwyd erthygl fer ar y gerdd 'Gubernatrix Cristata' gan Nesta Wyn Jones, lle mae'r bardd yn esbonio sut yr aeth hi ati i lunio'r gerdd honno. Gobeithio y bydd beirniaid y gwahanol gystadlaethau yn derbyn amryw ddarnau yn yr eisteddfodau eleni!

(parhad ar y dudalen nesaf…)



(parhad o dudalen 4…)

Yn ogystal â’r dosbarthiadau a’r gweithdai, cynhaliwyd nosweithiau cymdeithasol yn Nhŷ Camwy. Daeth ambell un i wylio’r ffilm ‘Poncho Mam-gu’ ar nos Fercher gynta’r gwyliau, ac ar y nos Wener cyrhaeddodd rhyw ddeg o bobl y tŷ ar gyfer Noson Goginio. Paratôdd Elliw Baines Roberts bwdin bara traddodiadol gyda menyn a swltanas, a chafodd bawb gyfle i flasu un roedd hi wedi’i baratoi ymlaen llaw gydag eirin gwlanog a jam llaeth. Dangosodd Lois Dafydd sut i wneud cacen gaws lemwn, a phice bach gyda chroen oren yn hytrach na’r swltanas traddodiadol. Rhaid oedd blasu’r rhain hefyd, wrth gwrs!



A phrynhawn dydd Sadwrn gosodwyd y bwrdd yn ystafell flaen Tŷ Camwy gyda llestri a danteithion y Noson Goginio yn barod ar gyfer te prynhawn. Prin oedd lle o amgylch y bwrdd wrth i bawb fwynhau prynhawn braf o sgwrsio a bwyta gyda chyfeillion.

Y nos Fercher ganlynol cynhaliwyd Noson Goginio arall. Y tro hwn rhannodd Elliw Baines Roberts rysáit teisen oergell tra dangosodd Lois Dafydd sut i bobi ‘brownies’ a chrymbl afalau. Daeth y sesiwn i ben gyda chyfle i flasu cynnyrch y noson, a daeth gweithgareddau’r pythefnos i ben gyda Noson Gêmau. Cafodd y ddau dîm dipyn o hwyl yn symud cymaint o ‘Rocklets’ â phosib o un fowlen i’r llall gyda gwelltyn diod, yn rhoi trefn ar linellau cymysg ‘Hen Wlad Fy Nhadau’, ac yn ceisio adnabod pobl a llefydd mewn amryw luniau. Llongyfarchiadau i’r tîm buddugol a enillodd gryno ddisg o gerddoriaeth Gymraeg!





Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a’u cyfraniadau i holl weithgareddau ‘Y Gymraeg yn y Gwyliau’ dros y pythefnos! Gobeithio fod pawb wedi cael gwyliau llawen.













# Dathlu penblwyddi!



Heddiw (25/06/12) daeth rhifyn mis Mai 'Clecs Camwy' i law diolch i'm cyfaill Siôn Dafis o'r Gaiman, ac es ati i'w darllen ar unwaith gan fwynhau'r cynnwys yn fawr. Mae'r papur yn flwydd oed ac felly pen blwydd hapus a llongyfarchiadau iddo! Dylwn i fod yn dathlu hefyd achos un flynedd ar hugain i eleni y cyrhaeddais i Fro Dyffryn Camwy am y tro cyntaf, i ddysgu Cymraeg yno am flwyddyn.

Hedfanais i draw yno ar ddechrau Awst 1991 ar ôl mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug ac roedd Fernando Williams, gynt o Drelew, yn fy nisgwyl ym maes awyr Ezeiza. Aeth â mi ar draws y ddinas i ardal Flores lle o'n i'n cael croeso am ddwy noson gan Eilir a Nellie Nicols gynt o'r Gaiman, cyn hedfan i Drelew. O'n nhw'n bobl hyfryd ac er iddyn nhw fyw ym Muenos Aires am flynyddoedd lawer, roedd eu Cymraeg yn loyw.

Yna, ffarweliais â nhw a hedfan i Drelew ond heb unrhyw syniad sut o'n i'n mynd i deithio oddi yno i'r Gaiman! Ond doedd dim rhaid i mi bryderu gan i wraig ddod ata i yn y maes awyr a'i chyflwyno ei hun i mi, sef Meira Jones, a ches i bás yn ei char i'r Gaiman.

Cyrhaeddon ni o flaen Tŷ Camwy - fy nghartre am y flwyddyn - ac wrth i mi gamu o'r car dyma groeso gan gymydog, sef Herbert Jones, a Tegai Roberts, curadur yr amgueddfa. Cyn i mi gael fy ngwynt ataf bron, dyma rywun yn curo wrth fy nrws a phwy oedd yno ond cymydog arall, sef Alwina Thomas. Roedd hi'n anodd credu fy mod i yn Ne 'r Amerig ac nid yng Nghymru gan fod pawb ro'n i wedi cyfarfod â nhw ar fy nhaith i gyd yn siarad Cymraeg!

Pasiodd y flwyddyn fel y gwynt ac anodd oedd ffarwelio â phawb. Ond ro'n i wedi addo y byddwn yn dychwelyd ar ôl seibiant o flwyddyn i ddysgu am flwyddyn arall gan fy mod i wedi mwynhau fy arhosiad cyntaf gymaint. Felly, braf oedd dychwelyd unwaith eto i barhau'r gwaith o gyflwyno'r Gymraeg i bobl Bro Dyffryn Camwy.

Gwilym Roberts, Caerdydd.



# Camre Cymru

Treuliodd criw ifanc o Gymry amser yn Nyffryn Camwy yn ystod mis Gorffennaf. Ar ôl ymweliadau byr â Buenos Aires a Phorth Madryn, teithiodd y pymtheg, sy'n ddisgyblion yn Ysgol Eirias ym Mae Colwyn (Gogledd Cymru) a'u tri arweinydd, sy'n athrawon yn yr ysgol i'r Gaiman.

Yn dilyn cinio a gêmau gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Camwy, cawson nhw eu tywys o amgylch y Gaiman gan y disgyblion hynny - Tŷ Camwy, yr Hen Bost, y sgwâr, yr Ysgol Feithrin, a'r amgueddfa cyn mwynhau paned o de yn Nghapel Bethel. Ond daeth criw Camre Cymru i weithio ym Mhatagonia, ac ar fore'r 25ain o Orffennaf cyrhaeddon nhw adeilad newydd Ysgol yr Hendre yn barod i dorchi llewys. Ar ôl cwrdd â'r plant, aeth y criw ati i gynllunio darluniau i'w paentio ar hyd waliau allanol yr adeilad. Ymunodd y criw yng ngwahanol weithgareddau'r ysgol, ac erbyn diwedd yr wythnos roedd waliau allanol Ysgol yr Hendre yn edrych yn lliwgar a deniadol dros ben!

Roedd Camre Cymru yn y dyffryn dros Ŵyl y Glaniad, felly ymunon nhw yn rhai o'r gwahanol ddi-gwyddiadau a gynhaliwyd i nodi'r diwrnod arbennig hwnnw gan gynorthwyo ym mharatoadau swper ndre yn Nhrelew. Ar ôl y dathlu, triodd y criw am yr Andes i barhau gyda'u taith.

Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu cwmni a'u gwaith caled, a phob hwyl ar weddill y daith.

# Cornel y Dysgwyr — *Rincon de aprenda Galés*

## Y Gwyliau / *Las Vacaciones*

**I ble wyt ti'n mynd ar dy wyliau?**
*A donde vas por tus vacaciones?*

**Dwi'n mynd i Buenos Aires ar fy ngwyliau.**
*Yo voy a Buenos Aires por mis vacaciones.*

| | |
|---|---|
| **Sut wyt ti'n mynd yno?** | *Cómo vas por alla?* |
| **Dwi'n mynd yn y car.** | *Voy en auto.* |
| **Dwi'n mynd ar y bws.** | *Voy por colectivo.* |
| **Dwi'n mynd mewn awyren.** | *Voy en avion.* |
| **Gyda phwy wyt ti'n mynd?** | *Con quién vas?* |
| **Dwi'n mynd gyda'r teulu.** | *Voy con la familia.* |
| **Mwynha!** | *Que te disfruta!* |
| **Diolch.** | *Gracias.* |

## Diolch yn fawr i gyfranwyr a noddwyr y rhifyn hwn...


PLAS HEDD
Complejo Turístico

Fflatiau moethus a heddychlon ger môr Madryn.

(02965)471357
Stryd F.L. Beltrán 1644/1626

*Plas-y-Coed*



Tŷ Te hynaf Gaiman.

Croeso Cymreig a the traddodiadol ers 1944.

Heol Michael D. Jones 123, Gaiman.

TeithiauTango
Dewch i weld y Wladfa
ATOL 10002 PROTECTED
www.teithiautango.co.uk

Cwmni teithio o Aberystwyth sy'n arbenigo yn y Wladfa.

Nwyddau ar gyfer ffermwyr yn Nhrelew

camposur
SERVICIOS AGROPECUARIOS
CHILE 32 Tel:(02965)436259-Tw.

*Gwalia Lân*

Bwyty safonol gydag awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.



Cornel Heol Eugenio Tello a Heol Michael D. Jones, Gaiman.

# Pice Bach Oren
# - newid bach i'r pice traddodiadol

Cynhwysion:
- 225g blawd codi
- 110g menyn neu farjarin
- 110g siwgr mân
- 1 wy
- Croen 2 oren
- Sudd llai na chwarter oren - os bydd angen
- Nytmeg, os dymunwch

Rhowch y blawd codi a'r menyn, neu'r marjarin, mewn bowlen, a'u rhwbio gyda blaen eich bysedd i wneud briwsion mân.

Ychwanegwch y siwgr a'r croen oren ato (a'r nytmeg, os dymunwch), a chymysgu'r cyfan yn ysgafn ond yn drylwyr.

Curwch yr wy a'i ychwanegu at y gymysgedd, yna ffurfiwch does. Os ydy'r toes yn rhy sych, ychwanegwch sudd oren yn ôl yr angen. Peidiwch ychwanegu gormod o'r sudd, neu fydd y toes yn rhy wlyb!



Rhowch rhywfaint o flawd ar y bwrdd ac ar y rholbren, a rhowliwch y toes yn weddol denau. Torrwch gylchoedd o'r toes.

Irwch y maen - peidiwch rhoi llawer o fenyn - a'i wresogi. Rhowch y pice bach ar y maen a'u coginio am 2-3 munud bob ochr, gan ofalu nad ydyn nhw'n llosgi!

Gadewch i'r pice bach oren oeri cyn eu bwyta.

## Sianel62

Eleni mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dathlu 50 mlynedd ers iddi gael ei sefydlu, ac i gyd-fynd â'r dathliadau maen nhw wedi sefydlu Sianel62 sy'n darlledu gwahanol eitemau Cymraeg ar y we. Dros y chwe mis diwethaf roedd cyfle i wylio fideos o Eisteddfod yr Urdd, dilyn gwahanol bobl sy'n byw neu'n ymweld â gwahanol wledydd, eitemau chwaraeon a cherddorol, cyfweliadau, a llawer iawn mwy.


Mae'r eitemau hyn ar gael i'w gwylio ar y we unrhyw bryd, ac mae'n bosib eu gwylio yn yr Ariannin! Felly ewch i'r wefan i weld beth sydd ar gael a chlicio ar y dewis 'Gwylio Eto Ar-alw':

www.gwefan.sianel62.com

***"Mi fydd y chwyldro ar y teledu"***

**Yn fyw, 8pm, bob nos Sul**
**ac ar-alw 24/7**

# Croesair Cyfieithu



AR DRAWS

1. BRAWDDEG (7)
5. GALÉS (7)
8. YSGRIFENNU (8)
12. IDIOMA (4)
16. PAN (4)
19. MERCH (5)
21. LLEIDR (6)
23. NOMBRE (3)
4. COEDEN (5)
7. PERRO (2)
10. LENGUA (5)
13. LLYTHYREN (5)
18. CORDERO (3)
20. PALABRA (4)
22. DIM BYD (4)
24. ŴYR (5)

I LAWR

2. TRADUCIR (8)
3. NOFIO (5)
6. LLYGODEN (5)
9. CYFIEITHYDD (9)
11. GWRESOGYDD (8)
14. LLO (7)
15. ARIANNIN (9)
17. TŶ (4)
20. CYMRU (5)

**Cofiwch fod ‘ch’, ‘dd’, ‘ff’, ‘ng’, ‘ll’, ‘rh’ ‘th’ yn un llythyren!**


## Geirfa’r Mis — *Vocabulario del Mes*

| | | | |
|---|---|---|---|
| hollbwysig | ***muy importante*** | dodrefn | ***muebles*** |
| annibynnol | ***independiente*** | jig-sô | ***rompecabezas*** |
| dathlu | ***celebrar*** | traddodiadol | ***tradicional*** |
| gaeafol | ***invierno*** | hunangofiant | ***autobiografía*** |
| techengol | ***técnico*** | gweithdy | ***taller*** |
| llen(ni) | ***cortina(s)*** | cymydog | ***vecino*** |
| gwreiddiol | ***originial*** | gwlyb | ***mojado*** |

# Cornel y Plant

## Lliwiwch y Mimosa

Anfonwch eich lluniau at Lois Dafydd erbyn 25 Awst 2012 am gyfle i ennill gwobr!



## Chwilair Rhifau

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| n | g | h | l | ch | l | p | s | d | t | w | u | g |
| d | s | p | e | d | w | a | r | a | h | r | n | ll |
| c | f | h | b | h | y | s | f | dd | r | e | m | h |
| b | p | s | a | i | th | c | d | m | d | s | rh | y |
| t | o | g | b | s | e | p | c | p | ff | e | r | ch |
| l | w | h | r | w | n | d | a | u | r | t | n | w |
| ph | t | ll | b | n | t | e | h | m | y | h | c | e |
| e | h | u | n | s | d | g | n | p | l | n | b | ch |
| r | c | f | a | m | b | r | e | dd | s | ff | u | r |

Un
Dau
Tri
Pedwar
Pump
Chwech
Saith
Wyth
Naw
Deg

Os hoffech chi ysgrifennu neu gyfrannu at 'Clecs Camwy', neu ei noddi, cysylltwch â Lois Dafydd: loisdafydd@menterpatagonia.org 2804 386 198